# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
# 25/01/24

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts a Huw Llwyd Rowlands.

**Aelodau Cyfetholedig:** Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) ac Elise Poulter (NEU).

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:-** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) a Dylan Griffiths (Rheolwr Datblygu Economaidd / Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:-** Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Delyth Gadlys Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7A:-** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Dysgu Arbennig a Chynhwysiad).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7B: -** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Euros Davies (Uwch Arweinydd Rhanbarthol – Ysgolion Cynradd ac Arbennig) ac Ellen Williams (Arweinydd Craidd - Uwchradd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:-** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Rhys Tudur, Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Gwilym Jones (NASUWT), Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Dros Faterion Gweithredol Economi) a'r Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

## 5. PROSIECT DATBLYGU ECONOMI GWYNEDD

Croesawyd yr Arweinydd a swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Faterion Gweithredol Economi yn gwahodd y pwyllgor i graffu:-

- Cynnwys y prosiect o dan y maes blaenoriaeth '*Gwynedd Llewyrchus'* yng Nghynllun y Cyngor sy'n anelu i greu'r amgylchiadau gorau bosib' i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith; a
- Cynnydd yr Adran Economi a Chymuned yn gweithredu'r prosiect er mwyn sbarduno twf yn economi Gwynedd.

Gosododd yr Arweinydd y cyd-destun, amlinellodd y Pennaeth Economi a Chymuned gynnwys yr adroddiad ac ymhelaethodd y Rheolwr Datblygu Economaidd / Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru ar y camau penodol o ran cymorth i fusnes.

Nodwyd, ers paratoi'r adroddiad:-

- Bod y broses o ddewis prosiectau fydd yn derbyn arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi dod i ben, ac y byddai dros £3m wedi'i ddosbarthu i 57 o fusnesau.
- Bod hyn ymhell islaw'r 185 o geisiadau gwerth £10m a ddaeth i law, a phetai gan y Cyngor fwy o amser a mwy o adnodd, diau y gellid bod wedi helpu llawer mwy.
- Bod y £1m oedd ar gael drwy'r rhaglen Arfor wedi'i ddosbarthu i 20 o fusnesau, ac unwaith eto, roedd y galw yn llawer uwch na'r adnodd oedd ar gael.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd bod dull Llywodraeth y DU o ddosbarthu arian o'r Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ddiffygiol iawn. Cyfeiriwyd yn benodol at y diffyg prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol, y diffyg strategaeth ar lefel uwch na'r sirol, y brys mawr i wario arian sylweddol mewn cyfnod byr o amser sy'n golygu blaenoriaethu prosiectau sy'n gallu cael eu gwireddu'n sydyn a'r ansicrwydd mawr ynglŷn â beth fydd yn digwydd ar ôl Ebrill 2025. Mewn ymateb, nodwyd bod rhai pethau sy'n well ar gyfer eu darparu ar lefel genedlaethol, rhai ar lefel rhanbarthol, rhai ar lefel sirol a rhai ar lefel fwy lleol byth, ond nid oedd yr un model yn ddelfrydol. Roedd angen cynllunio ar ba lefel mae dyrannu a gwneud penderfyniadau, ond ni fu cyfle i wneud hynny yn yr achos hwn oherwydd yr amserlen.

Holwyd a oedd rhai cynigion yn cael eu harianu yn eu cyfanrwydd a'r gweddill yn cael eu gwrthod, neu a oedd yna elfen o rannol ariannu rhai cynlluniau. Mewn ymateb, nodwyd y penderfynwyd peidio ariannu rhai cynigion yn eu cyfanrwydd er mwyn gallu cefnogi mwy o fusnesau, a bod pob un o'r busnesau a ariannwyd yn rhannol wedi cadarnhau bod modd iddynt gyflawni eu prosiect o fewn yr amserlen gyda llai o arian.

Holwyd a oedd y gost i'r gronfa o gyflogi'r swyddogion ychwanegol i weinyddu'r cynllun yn cynnwys costau diswyddo? Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynglŷn â chefndir y swyddogion hynny a beth fydden nhw'n debygol o wneud ar ôl i'r cynllun ddod i ben gan y byddai'n fuddiol cadw'r arbenigedd o fewn y Cyngor neu o fewn y rhanbarth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cost y staff ychwanegol i weinyddu'r cynllun yn gost gymwys o'r grant, felly nid oedd Cyngor Gwynedd yn talu am y staff hynny.

- Bod y nifer fechan o staff a gyflogwyd i redeg y prosiectau yng Ngwynedd yn gyfuniad o bobl â chefndir blaenorol yn y maes a phobl ifanc newydd i'r maes, a bod y tîm mwy ar draws y Gogledd yn cynnwys nifer o secondiadau o blith uwch swyddogion Gwynedd a siroedd eraill, ynghyd â chyn-swyddogion sydd â chefndir o reoli cronfeydd mawr, a phres Ewrop yn benodol.
- Y bu'n rhaid tyfu'r tîm o ochr gweinyddu'r grantiau oherwydd yr angen i brosesu cynifer o brosiectau mewn cyfnod cymharol fyr, a llwyddwyd eto yn yr achos hwn i roi cyfle i bobl ifanc gael profiad yn y maes.

Holwyd pa mor ffyddiog oedd y swyddogion bod modd i'r prosiectau a gafodd eu hariannu wario yn erbyn yr amserlen. Mewn ymateb, nodwyd y gellid bod yn ffyddiog y byddai modd gwario'r arian gan fod meini prawf asesu aeddfedrwydd a gallu prosiectau i weithredu wedi'u hadeiladu i mewn i'r broses. Fodd bynnag, petai pryder bod prosiect ddim yn cyflawni, byddai yna gyfle i ailgylchu'r arian.

Nodwyd bod yr Adran i'w llongyfarch am gyd-gordio'r holl grantiau ar hyd y Gogledd a'r Gorllewin, ond gan na ddarparwyd unrhyw arweiniad strategol gan Lywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru, roedd yn bwysig blaenoriaethu paratoi strategaeth er budd Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cytunid yn llwyr â'r sylw, ond na lwyddwyd i gwblhau'r gwaith o baratoi Cynllun Economi Gwynedd oherwydd y gofynion ychwanegol ar y Gwasanaeth i reoli a gweinyddu'r rhaglenni ariannu.
- Nawr bod y gwaith penderfynu o ran dyrannu'r arian wedi'i gwblhau, byddai'r gwaith o baratoi'r cynllun yn cychwyn yn fuan ac roedd yn bwysig bod gwersi o brofiad y trefniadau presennol yn cael eu dysgu a bod y blaenoriaethau ar gyfer Gwynedd yn glir i'r dyfodol.

Holwyd a oedd perygl y gallai Porthladd Rhydd Caergybi gael dylanwad negyddol ar economi Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cwestiwn hwn wedi'i ofyn a sicrwydd wedi'i roi gan swyddogion na fyddai Porthladd Rhydd Caergybi yn arwain at unrhyw '*displacement'*. Er hynny, ni welwyd tystiolaeth hyd yma o sut fyddai cael rheolaeth ar hynny a mawr obeithid y byddai yna drafodaeth ar hynny ar lefel rhanbarthol yn fuan.
- Y deellid bod y broses o baratoi'r cynllun busnes ar gyfer y Porthladd Rhydd yn dal i fynd yn ei flaen ac nad oedd eto'n glir beth fyddai ei effaith ar y rhanbarth.
- Nad oedd manylion ar gael chwaith ynglŷn â pha fuddion neu ba effaith andwyol y gallai'r Parth Buddsoddi Economaidd newydd yn y Dwyrain ei gael ar weddill y rhanbarth, a byddai'n rhaid cadw golwg ar y sefyllfa.
- Y pryderid am unrhyw effaith bosib' fyddai'r Porthladd Rhydd yn ei gael ar rai ardaloedd penodol fel Bangor oherwydd y manteision treth a gynigir i fusnesau sy'n sefydlu yn ardal y Porthladd Rhydd. Cafwyd addewid y byddai yna ganllawiau mewn lle a olygai na fyddai hynny'n digwydd, ond nid oedd Gwynedd wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau ynglŷn â hynny nac wedi gweld cynllun. Unwaith y byddai cynlluniau ar gael, byddai'r swyddogion yn awyddus i'w craffu ac i weld sut y gellid cydweithio.

Holwyd pa gynlluniau fyddai yna i geisio denu cyflogwyr mawr i Wynedd yn sgil llunio Cynllun Economi Gwynedd gan y pryderid y bydd unrhyw fusnesau mawr sy'n mewnforio / allforio nwyddau yn dewis Môn a busnesau sy'n cludo nwyddau o fewn ffiniau Prydain yn dewis Fflint / Wrecsam. Tra'n derbyn na allai Gwynedd gynnig manteision treth, ac ati, i fusnesau o'r fath, holwyd pa gefnogaeth arall y gallai Gwynedd ei gynnig i'r cwmnïau hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad yw cwmnïau mawr yn fodlon lleoli mewn ardaloedd ymylol fel Gwynedd, sy'n bell o'r farchnad gyda llai o weithlu a chostau cludiant uwch, heb fod yna gymhelliant iddyn nhw wneud hynny.
- Bod yna gymhelliant i gwmnïau leoli yn ardal y Porthladd Rhydd, e.e. arian i godi unedau a rhyddhad trethiant, ond nid oedd hynny am ddigwydd yng Ngwynedd.
- Mai dyma'r math o gwestiynau i'w codi wrth baratoi'r Cynllun Economi, gan na ragwelid y byddai adnoddau Cyngor Gwynedd yn gallu helpu.

Mynegwyd pryder bod safle Parc Bryn Cegin, Bangor wedi bod yn wag ers dros ddau ddegawd, a nodwyd, er bod yr aelod seneddol lleol yn gwneud llawer o waith ar hyn, nad oedd pethau yn symud. Holwyd hefyd lle fyddai'r unedau busnes newydd wedi'u lleoli. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r unedau newydd wedi'u lleoli ym Minffordd ac yn darparu ar gyfer y sir i gyd yn ganolog.
- Bod yna alw mewn ardaloedd eraill hefyd a disgwylid i weld beth fyddai'r farchnad sector breifat yn ddarparu eu hunain mewn rhai ardaloedd.
- Bod yna brinder safleoedd diwydiannol yng Ngwynedd a byddai angen prynu safleoedd er gwaetha'r ffaith bod Parc Bryn Cegin, sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru, yn wag.
- Bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd â Môn yn dangos bod yna ddigon o dir diwydiannol o fewn ardal y cynllun, ond bod y tiroedd hynny ar Ynys Môn, a gobeithid bod modd edrych ar hynny fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun gyda'r nod o gael mwy o ddarpariaeth tir ac eiddo yng Ngwynedd.

Nodwyd bod Gwynedd yn un o'r siroedd tlotaf yng ngwledydd Prydain ac yn ddibynnol iawn ar y cronfeydd Ffyniant Bro a Ffyniant Gyffredin. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y credid bod economi Gwynedd yn or-ddibynnol ar y diwydiant ymwelwyr a bod angen cael mwy o fudd lleol allan ohono.
- Bod gan y Gymru wledig broblem ddiboblogi ddifrifol a bod angen cynllun economaidd i ardaloedd gwledig Cymru.
- Bod angen creu amgylchedd llawer mwy rhwydd i adeiladu unedau bach neu lai gan fod yna alw amdanynt. Credid bod yna gyfleoedd i fuddsoddi yn sylweddol ar draws cefn gwlad ac roedd angen i ni edrych yn llawer mwy gofalus ar ein cynlluniau datblygu i hwyluso hynny.
- Na chredid bod y Llywodraeth bresennol yn deall y sefyllfa wledig, a'i bod yn haws cael cynnydd economaidd mewn ardaloedd trefol sydd â bwrlwm economaidd.
- Bod yna fusnesau da iawn a hynod lwyddiannus yn bodoli yng Ngwynedd sy'n cynnig cyflogaeth dda i weithwyr a bod cwmnïau yn dewis Gwynedd oherwydd bod y staff yn sefydlog ac yn deyrngar.
- Bod angen cydnabod bod yna sylfaen economaidd ffyniannus ar hyd a lled Gwynedd a bod y sylfaen yna'n golygu nad ydym yn agored i'r newidiadau economaidd sylweddol.
- Bod angen creu cyfleoedd i'r busnesau bach sydd gennym yng Ngwynedd ehangu a bod angen buddsoddiad ar lefel rhanbarthol ac ar lefel cenedlaethol a chynllun cenedlaethol ar gyfer cefn gwlad Cymru.

Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod etholwyr Gwynedd yn deall nad y Cyngor sydd wedi creu'r holl ansicrwydd am ddyfodol adnoddau i gefnogi'r economi leol, ac mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y sefyllfa, a hynny er mwyn cael manteision etholiadol.

Nodwyd bod rhai ymgeiswyr aflwyddiannus am grantiau yn teimlo bod eu holl waith ar y ceisiadau wedi bod yn ofer a holwyd sut y gellid esbonio wrth y bobl hynny nad bai Cyngor

Gwynedd yw hynny, ac y bydd y gwaith a gyflawnwyd ganddynt yn bwysig ar gyfer prosiectau eraill yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y gobeithid, ymhob achos, nad yw'r gwaith, ar wahân i lenwi'r ffurflen, yn mynd yn ofer.
- Y gobeithid y byddai'r swyddogion yn gweld pawb sydd wedi bod yn aflwyddiannus gyda'u ceisiadau am grant er mwyn gweld oes yna ffyrdd gwahanol o ariannu'r cynlluniau. Hefyd, byddai'r Gwasanaeth yn cyfeirio swyddog o Fusnes Cymru at yr ymgeiswyr, yn sicr felly o ran y ceisiadau mwy am grant, i weld oes ffordd wahanol o gefnogi'r busnes i gyflawni'r prosiect.
- Y bydd rhagor o grantiau yn sicr o ddod yn y dyfodol, er nad ydi'r manylion yn hysbys eto, a chynghorid pawb i barhau i weithio ar fanylion eu prosiectau fel eu bod mor aeddfed â phosib' pan ddaw cyfle arall am grant.
- Y gofynnid i'r aelodau basio gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw brosiectau sy'n bryderus am eu sefyllfa i'r Gwasanaeth fel y gall y swyddogion gysylltu â hwy.

Holwyd a ddeellid pam bod cyfraddau anweithgarwch economaidd a diweithdra Gwynedd yn fwy cyfnewidiol nag mewn aml i le arall. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod llawer o'r data a gynhyrchir ar sail arolygol a samplau, a po leiaf yw maint yr ardal ddaearyddol, lleiaf sicr yw maint y sampl wedyn.
- Bod angen bod yn ofalus gyda'r math hwn o ddata ac roedd yn bwysig edrych ar y tuedd arferol.

Nodwyd, o edrych ar y dangosyddion gwerth ychwanegol a chyflogau cyfartalog, ac ati, mai'r patrwm arferol yw bod y DU yn gwneud yn well na Chymru a Gwynedd. Holwyd, o dderbyn nad oes gennym ysgogiadau economaidd i wneud gwahaniaeth mawr, a ddeellid yn llawn pam bod y bwlch yna yn parhau dros gymaint o amser. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Er bod y wybodaeth, yn arbennig o ran perfformiad yr economi, yn dangos patrwm yn symud yn ôl a blaen ychydig, bod y tuedd yn aros yn debyg iawn.
- Bod economi Gwynedd yn fwy ymylol, a hefyd yn economi traddodiadol mewn sawl ystyr, gyda sectorau sy'n seiliedig ar unedau llai na'r cyfartaledd, a bod hynny'n tanlinellu maint yr her.
- Bod rhaid cael ymdrech gyson hir dymor dros sawl cenhedlaeth i gau rhywfaint ar y bwlch, ac er nad ydi cyflogau Gwynedd byth yn mynd i fod ar yr un lefel â chyflogau Llundain, bod llawer o fanteision eraill i weithio yng Ngwynedd.
- Bod y bwlch yn rhy eang ar hyn o bryd, ond yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn symud tuag at welliant.

Nodwyd bod tueddiad i bolisi economaidd sy'n cael ei ffurfio gan Lywodraeth y DU ffafrio Llundain, a bod yr un peth yn wir ar lefel Caerdydd, a bod gwledydd eraill yn gwneud llawer mwy o ymdrech i sicrhau bod rhannau rhanbarthol yn ffynnu.

Gan gyfeirio at y tabl yn yr adroddiad, holwyd ym mha feysydd ac ym mha rannau o'r sir roedd y 101 o bobl Gwynedd a dderbyniodd gefnogaeth hyd yn hyn yn 2023/24 wedi sicrhau swydd. Holwyd hefyd faint o'r 364 o unigolion lleol a fynychodd y ffeiriau swyddi oedd wedi cael gwaith erbyn hyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr adroddiad yn cyfeirio'n benodol at weithgaredd yn ymwneud â rhaglen Gwaith Gwynedd sy'n targedu'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur, pobl sydd wedi bod allan o waith am gyfnod hir neu bobl sydd â chyflyrau iechyd sy'n aml wedi eu hatal rhag gweithio yn y gorffennol.
- Bod tîm Gwaith Gwynedd yn mentora'r unigolion dros gyfnod estynedig ac roedd yna gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd yn y tymor hir hefyd er mwyn gwneud yn siŵr nad ydi'r unigolion yn disgyn allan o gyflogaeth ac i'w cynorthwyo i symud ymlaen i swyddi gwell o fewn eu sector.

- Y defnyddid y ffeiriau swyddi fel cyfle i adnabod pobl sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn cael mynediad i waith.

Holwyd a ragwelid sut y byddai'r crebachu ar arian sector gyhoeddus yn y blynyddoedd nesaf yn effeithio ar fusnesau'r sir, o ystyried bod busnesau'n derbyn nawdd anuniongyrchol gan y sector gyhoeddus drwy gontractau a gwariant cyflogeion. Mewn ymateb, nodwyd y gobeithid y byddai hyn yn rhan o'r briff ar gyfer Cynllun Economi Gwynedd gan fod angen deall beth yw'r effaith anuniongyrchol yn sgil crebach cyllideb sector gyhoeddus yn gyffredinol ar bartneriaid yng Ngwynedd.

Nodwyd nad diweithdra, ond yn hytrach ansawdd swyddi, yw'r brif broblem yng Ngwynedd a holwyd, o greu mwy o swyddi, sut mae sicrhau mai'r boblogaeth leol sy'n manteisio ar hynny, yn hytrach na phoblogaeth fewnlifol, ac oes modd osgoi hynny o gwbl gan fod swyddi ansawdd isel yn mynd i fod yn angenrheidiol beth bynnag. Mewn ymateb, nodwyd y cyflwynwyd amodau ynghlwm â chynigion grant, gan gynnwys amod y bydd y busnes, os nad yw'n gwneud hynny eisoes, yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl weithwyr erbyn diwedd y flwyddyn.

Holwyd a fydd modd darparu rhestr lawn ar ddiwedd y cyfnod dyrannu grantiau o'r busnesau sydd wedi derbyn cymorth, ynghyd â faint o swyddi sydd wedi'u creu, gan y byddai'n fuddiol gwybod mwy am ddosbarthiad daearyddol yr arian. Holwyd hefyd a fydd yr Adran yn edrych ar ôl cyfnod o amser i weld os ydi'r busnesau hynny wedi llwyddo neu fethu, a beth fyddai'r amserlen ar gyfer hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai enwau'r busnesau llwyddiannus a'r cynigion a wnaed iddynt yn cael eu cyhoeddi.
- Y bu'n rhaid ystyried y ceisiadau a ddaeth i law, felly os nad oedd yna geisiadau yn dod i mewn o ardaloedd penodol, roedd angen mynd ar ôl hynny yn y cynllun newydd.
- Er y bydd angen ystyried sut i werthuso'r cynllun y tu hwnt i gyfnod y rhaglen, bydd yr Adran yn parhau i'w fonitro er mwyn gweld sut mae cwmni wedi datblygu dros y blynyddoedd, gan hefyd gynnal y berthynas gyda'r sawl sydd wedi derbyn cymorth fel bod modd iddyn nhw dderbyn cymorth pellach neu elwa ar gyfleoedd pellach gan y Cyngor ac eraill.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd a nodwyd y bydd hyn yn golygu y bydd mwy o fusnesau sy'n cyflogi pobl leol yn gorfod cau. Hefyd, gan fod Gwynedd yn sir sy'n ddibynnol iawn ar amaeth, a ffermwyr yn wynebu toriadau sylweddol mewn taliadau, mynegwyd pryder ynglŷn â beth sy'n mynd i ddigwydd i economi cefn gwlad Gwynedd yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y deellid y pryderon ynglŷn â'r cynlluniau amaeth diweddaraf a bod yna negeseuon yn mynd o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Llywodraeth.
- Y credid ein bod yn or-ddibynnol ar amaeth a thwristiaeth yng Ngwynedd a bod angen economi llawer iawn mwy amrywiol.
- Bod rhaid cymryd risgiau wrth greu gwaith yn yr ardaloedd gwledig a bod yn barod i ddenu pobl o'r tu allan os ydyn nhw'n barod i sefydlu busnes a chreu gwaith i bobl leol.
- Bod ein gallu fel Cyngor i newid y sefyllfa yn brin iawn, ond byddem yn gwneud ein gorau ac yn ystyried y materion hyn oll yn y trafodaethau wrth ddatblygu'r Cynllun Economi, ac yn dod yn ôl at y craffwyr gyda manylion y cynllun.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

**6. DOGFEN YMGYNGHORI AMCANION CYDRADDOLDEB 2024-28**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a swyddogion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i'r cyfarfod.
Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol yn egluro bod dyletswydd benodol ar y Cyngor, fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i adolygu ei Amcanion Cydraddoldeb erbyn diwedd Mawrth 2024, ac yn gwahodd mewnbwn y craffwyr i'r amcanion drafft.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan ddiolch i'r swyddogion am eu holl waith yn y maes hwn.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd mai'r peth pwysig i'w gofio o ran cydraddoldeb yw nad yw'r pwynt dechrau'r un fath i bawb a bod angen symud y pwynt dechrau weithiau fel bod pobl sydd â rhwystrau sy'n eu hatal rhag bod yn gydradd mewn cymdeithas yn gallu symud yn eu blaenau. Gan hynny, holwyd pa gamau roedd y Cyngor yn eu cymryd i, er enghraifft, roi swyddi i bobl sydd â'r anghydraddoldebau hyn a rhoi cyfle iddynt gamu ymlaen. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai bwriad yr amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw ceisio symud pethau ymlaen i'r bobl hynny sy'n profi anghydraddoldeb a bod 4 amcan yn gweithio tuag at bwyntiau gweithredu ar hynny.
- Bod yr amcan cyntaf ynglŷn â chyflogaeth, a bod hynny'n unol â'r canllawiau.
- Y rhoddwyd ystyriaeth hefyd i beth arall sydd angen ei wneud. Gofynnid i'r staff lenwi holiadur yn nodi beth yw eu nodweddion, ond nid oedd llawer yn gwneud hynny am amryw o resymau, ond heb y wybodaeth honno, nid oedd modd gwybod beth yw'r sefyllfa o fewn y Cyngor a phwy sydd angen yr anogaeth fwyaf. Gan hynny, penderfynwyd bod angen pwyntiau gweithredu sy'n mynd i symud hynny ymlaen.
- Bod dyletswydd cyfreithiol ar y Cyngor i fod yn gyflogwr sy'n groesawgar i bawb, ac roedd angen bod â'r agweddau iawn o fewn y gyfundrefn gan weithredu mewn ffordd sy'n groesawgar i bawb ac yn annog pawb i ddod i weithio atom, e.e. roedd modd gwneud addasiadau rhesymol i'r gweithle ar gyfer pobl sy'n teimlo eu bod angen cefnogaeth i ddod i weithio i'r Cyngor.
- Bod lle i wella llawer ar hynny eto ac roedd y rhan o'r Cynllun ar gyflogaeth yn gosod uchelgais i gymryd camau penodol tuag at sicrhau bod Gwynedd yn gyflogwr o ddewis ar gyfer pawb.

Holwyd sut y gellid denu mwy o ferched i swyddi uwch reolwyr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y maes Merched Mewn Arweinyddiaeth yn faes blaenoriaeth o fewn y Cyngor a bod prosiect sy'n gweithio ar newid y diwylliant wedi bod yn ei le ers sawl blwyddyn ac yn gwneud cynnydd mawr.
- Bod cynllun peilot ar droed sy'n edrych ar sut mae ffurflenni cais am swyddi yn cael eu sgrinio er mwyn sicrhau nad oes yna unrhyw fath o duedd di-angen.
- O ran nodweddion eraill, bod grŵp craidd cydraddoldeb yn cyfarfod yn chwarterol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwahanol er mwyn cael barn arbenigol ganddynt ar wahanol faterion.
- Fel rhan o'r ymgysylltu, bod y swyddogion wedi ymweld â nifer o grwpiau, gan gynnwys gofalwyr ifanc a Pride, i gael eu barn cyn ffurfio'r drafft, a bod bwriad i wneud rhagor o waith ymgysylltu gyda grwpiau gwahanol yn bennaf ar gyfer y rhan yma o'r ymgynghoriad.

Mynegwyd pryder cyffredinol bod gwleidyddiaeth hunaniaeth sy'n canolbwyntio ar grwpiau cymharol fychan mewn cymdeithas yn osgoi'r anghydraddoldeb sylfaenol, sef yr un socio-

economaidd, a chroesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn rhoi tipyn o gig ar leihau hynny i gau bwlch cyflog, gan mai yno y dylai ein ffocws fod.

Mynegwyd pryder bod merched yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi cyflogau isel, e.e. yn y maes gofal.

Nodwyd nad oedd y cohort sydd wedi ymateb i'r holiadur yn gynrychioliadol o boblogaeth y sir yn ieithyddol (33% o gymharu â tua 64%) ac awgrymwyd y gallai hynny egluro'r is-leisiau gwrth-Gymraeg a deimlir yma ac acw yn y sylwadau. Nodwyd bod y swyddogion wedi ymateb yn reit gadarn i hynny yn y sylwadau, ond roedd yna hepgor ambell sylw oedd yn gwahaniaethu mewn meysydd eraill, a holwyd oni ddylid hefyd hepgor y sylwadau gelyniaethus, dilornus tuag at y Gymraeg a pheidio â rhoi sylw i'r rheini chwaith. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Gan bod gymaint o hyn yn cael ei ddweud, nid yn yr holiadur hwn yn unig, ond mewn holiaduron eraill hefyd, y teimlid bod angen rhoi sylw i hyn oherwydd ei bod yn bwysig addysgu pobl ynglŷn â'n ffordd o edrych ar bethau, ac o weithredu yng Ngwynedd.
- Bod bwriad, felly, i gael pwynt gweithredu yna sy'n dweud ein bod yn mynd i werthu ein gweledigaeth ni o'r Gymraeg a'n rhesymeg dros ofyn i bobl am y sgil o allu siarad Cymraeg.

Cyfeiriwyd at y frawddeg yn yr adroddiad "*Hefyd aeth y swyddogion cydraddoldeb i gyfarfod gydag ystod o grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys gofalwyr ifanc, pobl anabl, pobl LHDTC+, ayb*" a nodwyd ei bod yn syndod nad oedd adroddiad sy'n ymwneud â chydraddoldeb a chyfle cyfartal yn cydnabod pob un o'r grwpiau hynny.

Sylwyd bod yr ymateb i'r holiadur o ardal Bala / Penllyn yn isel o gymharu ag ardaloedd eraill a holwyd pam bod cyn lleied o bobl ifanc wedi ymateb i'r holiadur. Mewn ymateb, nodwyd yr aethpwyd i weld y gofalwyr ifanc a'r bobl ifanc yn Gisda er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn cael cynrychiolaeth o leisiau ifanc. Roedd bwriad i holi'r Ffermwyr Ifanc a Choleg Meirion-Dwyfor hefyd.

Holwyd sut y bwriedid ennyn diddordeb pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol yn Fforwm Ieuenctid Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd mai'r peth pwysicaf, fel gyda phob nodwedd, yw holi'r bobl ifanc eu hunain beth yw'r ffordd orau o wneud hynny, a gweithredu ar hynny.

Holwyd sut roedd Gwynedd yn cymharu â chynghorau eraill o safbwynt cyfartaledd yn y gweithle a pha gamau a gymerid i sicrhau bod y gweithlu cyfan yn rhoi pwys ar hyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cynghorau eraill yn profi'r un rhwystrau â Gwynedd mewn gwirionedd a bod gwaith i'w wneud i egluro pam ein bod yn rhoi pwys ar y maes yma.
- Gan fod yna fylchau yn ein trefniadau o ran cynnwys pobl â nodweddion yn ein trefniadau cyflogaeth, bod bwriad i sefydlu fforwm staff fydd yn fodd o gael deialog dwy-ffordd a chasglu syniadau er mwyn gosod cynlluniau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth glir.

Croesawyd y ffaith bod y maes addysg wedi'i gynnwys yn yr amcanion, ond nodwyd bod y pwyntiau gweithredu yn faterion sy'n perthyn i'r byd addysg, ac nad oedd y cyswllt cydraddoldeb yn glir ymhob un ohonynt. Esboniwyd y rheswm fod y pwyntiau gweithredu yn ymwneud â chydraddoldeb. Dywedwyd fod pob ysgol yn gorfod cael eu cynllun cydraddoldeb eu hunain a byddai'r pwyntiau gweithredu yma'n sefydlu fframwaith fel man cychwyn i'r ysgolion ddatblygu eu cynlluniau eu hunain.

Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb am ei gwaith a'i hymroddiad i'r maes ac erfyniwyd ar bawb i fynd i un o'r sesiynau hyfforddiant cydraddoldeb a drefnir ganddi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL ADDYSG

Croesawyd swyddogion yr Adran Addysg a GwE i'r cyfarfod.

## 7A ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2022-23

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol Addysg 2022-23.

Gosododd y Pennaeth Addysg y cyd-destun gan nodi ei ddymuniad i hwyluso'r gwaith craffu drwy symud tuag at gynhyrchu adroddiadau fydd yn rhoi mwy i'r craffwyr o ran yr hyn sydd o'n blaenau, ond llai o ran sylwedd yr adroddiadau, ac a fydd hefyd yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r her sy'n wynebu'r ysgolion, y staff a'r gwasanaethau sy'n cefnogi.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd siomedigaeth nad oedd cyfeiriad at ysgolion arbennig yn yr adroddiad. Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at broblemau recriwtio cymorthyddion dosbarth yn y prif lif, ond nad oedd sôn am yr ysgolion arbennig lle mae'r broblem yn llawer gwaeth. Nodwyd hefyd, er bod gwaith y cymorthyddion yn yr ysgolion arbennig yn hynod ddwys, eu bod yn derbyn yr un cyflog â chymorthyddion prif lif. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd rhan benodol o'r adroddiad yn ymdrin ag ysgolion arbennig, ond bod y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cwmpasu'r sectorau cynradd, uwchradd, gydol oes ac arbennig. O bosib' y gellid ail-edrych ar hynny ac egluro sefyllfa'r sector arbennig yn yr adroddiad blynyddol nesaf.
- Nad oedd y broblem recriwtio cymorthyddion yn unigryw i Wynedd. Petai'r unigolion yn gweithio oriau llawn amser drwy gydol y flwyddyn, gellid dadlau eu bod ar gyflog teg, ond gan eu bod yn gweithio llai nag wythnos waith arferol, a hynny yn ystod tymor ysgol yn unig, roedd yn anodd denu pobl i'r rôl.
- Bod gwaith i hyrwyddo'r swyddi a'r proffesiwn yn cynnwys ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol a thrafodaethau gyda Choleg Meirion-Dwyfor gyda'r nod o gynnal digwyddiad hefo'r ysgolion.
- O ran yr ysgolion arbennig, bod darn o waith i'w wneud o ran arfarnu swyddi o fewn yr ysgolion hynny a strwythurau o fewn yr ysgol a fyddai, o bosib', yn adlewyrchu dwysedd y gwaith a wynebir o gymharu â'r prif lif.
- Bod lle hefyd i edrych ar y dyletswyddau a gyflawnir gan gymorthyddion ar lefelau 1-4 yn yr ysgolion er mwyn gweld oes yna rolau uwch, ond islaw athro, y gallai'r unigolion hynny ymgymryd â hwy, megis cymryd gwersi a chyflawni gwaith llanw yn ôl yr angen.

Holwyd a oedd pob ysgol wedi cael gwybod am ei chategori ieithyddol erbyn hyn a beth yn union y bwriedid ei wneud er mwyn sicrhau fod y drefn gategoreiddio newydd yn datblygu ac yn gwreiddio er mwyn cyflawni uchelgais Gwynedd yn y maes hwn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gwaith eisoes wedi digwydd yn y cefndir o ran comisiynu ymgynghorydd allanol i weithio gyda'r Adran o ran y Polisi Iaith, a bod amserlen mewn lle er mwyn cael popeth yn barod erbyn diwedd y flwyddyn addysgol bresennol.
- Y byddai cyfle i'r aelodau fod yn rhan o'r broses o ddod â'r Polisi Iaith ynghyd, a bwriedid adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ym mis Mawrth ar y cynnydd yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd.
- Y deellid yr hyn sy'n cael ei ddweud o ran y pwysau o ran yr iaith, y categoreiddio iaith, ayb, ac y byddai'r Pennaeth yn gweithio gyda'r tîm i roi hynny at ei gilydd.

- Bod yr ysgolion yn ymwybodol o'u categori.
- Mai canllaw anstatudol oedd y categoreiddio ar hyn o bryd, ond y byddai'n statudol yn y Bil Addysg Gymraeg.
- Nad y categoreiddio, o reidrwydd, sy'n mynd i yrru ein uchelgais yng Ngwynedd, eithr y polisi a'r ddarpariaeth o fewn yr ysgolion. Gan hynny, credir bod y gwaith sy'n cael ei wneud o ran y polisi a gweithio hefo'r ysgolion a rhanddeiliaid yn bwysicach na'r drefn gategoreiddio genedlaethol sydd, mewn gwirionedd, yn drefn lled weinyddol.
- Bod yr Adran yn casglu data ar y ddarpariaeth bresennol sydd gan yr ysgolion a hefyd yn gofyn i bob ysgol rannu blaenoriaethau o ran datblygu, cynnal a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Bod yr Adran hefyd yn craffu ar flaenoriaethau'r Gymraeg gydag Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE sy'n gyfrifol am y Gymraeg, a hefyd yn gweithio gyda GwE i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i ysgolion penodol ar flaenoriaethau eu cynllun datblygu ysgol.
- O ran y Bil Addysg Gymraeg, bod yr Adran hefyd yn edrych ar oblygiadau ariannol trosglwyddo i'r system newydd a faint mae'r ddarpariaeth a'r gynhaliaeth yn mynd i olygu i ni fel Awdurdod yn ariannol pan ddaw i rym.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweld y data ieithyddol. Mewn ymateb, nodwyd bod y data yn cael ei gasglu yn flynyddol ac yn cael ei rannu gyda nifer o randdeiliaid.

Mynegwyd pryder nad oes fawr o oruchwyliaeth gan yr Awdurdod o weithrediad y Siarter Iaith a'r Strategaeth Uwchradd, ac roedd yn ymddangos, o siarad gydag ambell ysgol, nad oes ganddynt gynllun siarter, ac mai'r oll a wneir ganddynt yw llenwi holiadur blynyddol. Yn wyneb hynny, argymhellwyd ychwanegu blaenoriaeth i'r adroddiad bod yr Awdurdod am oruchwylio mwy ar weithrediad y Siarter a'r Strategaeth Iaith yn ein hysgolion, ynghyd â llunio adroddiad ar gyfer pob ysgol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r Siarter Iaith yn cael ei ail-lansio ar ei newydd wedd yn Eisteddfod yr Urdd eleni, a bod yna gynlluniau i'w hyrwyddo'n genedlaethol.
- Yn dilyn yr ail-lansiad, bod bwriad i ail-gychwyn y broses achredu fel bod modd i ysgolion ymgeisio am wobr aur, arian neu efydd i gydnabod eu hymdrechion.
- Bod Cydlynydd y Siarter Iaith a Chydlynydd y Strategaeth Uwchradd yn darparu cefnogaeth i'r ysgolion a hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda GwE i sicrhau bod arian grant y Siarter Iaith yn cael ei wario'n benodol i ddiwallu anghenion ieithyddol y gwahanol ddalgylchoedd. Roedd yna waith da iawn yn digwydd yn y dalgylchoedd o ran rhoi profiadau, a hefyd o ran datblygu hyfforddiant i staff ynglŷn â gwerthoedd defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Bod y Cydlynwyr Iaith Dalgylchol yn cydlynu bwydo gwybodaeth i'r Cydlynydd Siarter Iaith, a bod y gwaith yn cael ei fonitro ac yn mynd rhagddo.
- Bod y plant ymhob ysgol yn ateb holiaduron ynglŷn â'r defnydd cymdeithasol a wneir ganddynt o'r Gymraeg a bod hwnnw wedyn yn cyflwyno Gwe Iaith i'r ysgol fel bod modd adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yng nghyd-destun y Gymraeg yn gymdeithasol.
- Bod y Cyngor Ysgol, gyda'r athrawon, yn llunio cynllun gweithredu i ddatblygu'r meysydd penodol sydd angen sylw a bod yr Awdurdod yn monitro'r gwaith hwnnw, yn ogystal â gweithio'n genedlaethol i sicrhau bod hyn yn digwydd ar draws Cymru.
- Y byddai yna fwy fyth o graffu ar y Gwe Iaith a'r gweithredoedd o fewn yr ysgolion yn sgil ail-gyflwyno'r broses achredu.

Nodwyd nad oedd y rhagair i'r adroddiad blynyddol yn cydnabod cefnogaeth a chyfraniad llywodraethwyr, na'r dysgwyr chwaith, wrth weithredu'r strategaethau addysgol. Mewn

ymateb, nodwyd bod hynny'n gam gwag ac y dylid bod wedi diolch i'r plant a'r bobl ifanc a'r llywodraethwyr a'r gymuned gyfan sy'n cefnogi'r sector addysg.

Awgrymwyd bod yr adroddiad yn brin o dystiolaeth, e.e. ffigurau / canrannau, i gefnogi ac i gyfiawnhau'r hyn sydd wedi'i nodi. Mewn ymateb, nodwyd bod bwriad i symud i ffwrdd oddi wrth y syniad nad yw adroddiadau bob amser yn amlygu gwendid, gan ddarparu adroddiadau sy'n tanlinellu'r heriau yn ogystal er mwyn cael balans. Golygai hynny, ynghyd â'r bwriad i roi llinell amser ar dargedau wrth osod blaenoriaethau yn y dyfodol, y byddai'n llawer haws adrodd i'r craffwyr y flwyddyn nesaf yn yr adroddiad blynyddol.

Gofynnwyd am ddiweddariad ar y sefyllfa o ran recriwtio seicolegwyr addysgol gan fod hyn yn fater o flaenoriaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd y sefyllfa wedi gwella a bod bwriad i anfon llythyr at y Llywodraeth ar y cyd rhwng Cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy yn tynnu sylw eto at y pryder ynglŷn â'r dull hyfforddi a'r anhawster recriwtio seicolegwyr dwyieithog.
- O bosib' y byddai modd i'r Adran recriwtio unigolion sy'n gorffen hyfforddi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mynegwyd pryder y gall y cynnydd yn nifer y plant ag anghenion dwys ac ymddygiad heriol iawn sy'n mynychu'r canolfannau ABC roi mwy o bwysau ar y 2 ysgol arbennig yn y sir, sydd bron, neu wedi cyrraedd eu capasiti. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys athrawon sy'n cefnogi'r cylchoedd meithrin ynghyd â thîm bychan sy'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar.
- Bod plant bellach yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cynlluniau datblygu unigol cynhwysfawr yn cael eu paratoi ar eu cyfer cyn iddynt gychwyn ysgol.
- Y gwelwyd cryn gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf yn niferoedd y plant ag anghenion ychwanegol oherwydd bod y Gwasanaeth wedi mynd ati yn fwriadol i chwilio am blant, neu i fod yn darparu ar gyfer plant ag anghenion yn y blynyddoedd cynnar, ond roedd y niferoedd wedi cysoni erbyn hyn.
- Er bod y niferoedd yn eithaf cyson o ran cyfeiriadau blynyddoedd cynnar, bod y dwyster yn uwch, ac roedd y Gwasanaeth yn ymateb i hynny.
- Mai pwrpas y canolfannau ABC, os ydyn nhw'n gweithio'n effeithiol, yw atal plant rhag cyrraedd ysgolion arbennig drwy eu harfogi gyda'r sgiliau cymdeithasol, ayb, sydd eu hangen arnynt i allu ymdopi ag addysg prif lif.
- Nad oedd hynny'n gweithio bod tro ac roedd yn wir i ddweud bod yna lwybr o'r canolfannau ABC i'r ysgolion arbennig.
- Bod y Gwasanaeth hefyd yn edrych ar sut i uwch-sgilio'r ysgolion prif lif o ran plant ifanc sy'n dod i mewn ag anawsterau mwy cymhleth, ac yn datblygu'r cydweithio rhwng yr ysgolion arbennig a'r prif lif, gan rannu ymarfer da.
- Bod capasiti'r ysgolion arbennig yn broblem a bod yr Awdurdod yn edrych ar hynny. Nid oedd datrysiad hawdd yn y tymor byr, ond roedd trafodaeth i'w chael gyda'r ysgolion arbennig ynglŷn â sut orau i ryddhau gofod yn y dosbarthiadau.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r amseroedd aros am asesiadau niwroddatblygiadol a gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r cydweithio gyda'r Tîm Niwroddatblygiadol i geisio cyfarch y broblem. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod yna dipyn o fuddsoddiad gan y Llywodraeth, nid yn gymaint o'r sector addysg, ond gwasanaethau eraill o ran cefnogi dysgwyr gydag anawsterau niwroddatblygiadol.
- Bod llawer o blant yn cael eu cyfeirio ond nad oedd y rheini i gyd yn mynd i gael diagnosis ar y diwedd.

- O ran y drefn addysg, ni edrychid ar y diagnosis, ond yn hytrach ar yr anghenion sy'n cael eu hadnabod.
- Bod y gwaith sy'n digwydd ar y cyd â'r timau eraill yn y maes yn cynnwys mapio allan beth mae pawb yn ei roi fel cefnogaeth, gwneud yn siŵr nad oes yna unrhyw ddyblygu ymdrechion a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gan bawb, a hefyd efallai edrych ar gynllunio pa hyfforddiant sydd ei angen a'r mewnbwn i deuluoedd.
- Bod angen symleiddio popeth ar draws y gwasanaethau plant, iechyd ac addysg i hwyluso teuluoedd fel eu bod yn cael y mewnbwn allweddol.

Holwyd beth oedd yr Adran yn ei wneud i geisio cael mwy o athrawon a chymorthyddion i ymgeisio am y swyddi gwag mewn rhai ysgolion. Nodwyd bod ymddygiad plant tuag at athrawon wedi gwaethygu'n sylweddol yn sgil y cyfnod Cofid, a dyna pam bod presenoldeb cymhorthydd yn y dosbarth mor bwysig. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r ysgolion yn ardal Tywyn, a holwyd sut y gellid dod o hyd i bobl gyda'r cymwysterau gorau i ddod i weithio i'r Ganolfan Iaith newydd fydd yn agor yn Nhywyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gennym her wirioneddol yng Ngwynedd o ran cynhwysiad ac ymddygiad yn yr ysgolion a bod hyn wedi'i amlygu yn adroddiad Estyn.
- Bod yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Estyn ar hyn o bryd ac yn edrych ar gynlluniau sy'n mynd i sicrhau gwell darpariaeth ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd ar gyfer plant sydd ag ymddygiadau cynyddol heriol.
- Bod yr ymddygiadau heriol hyn, yn ogystal â'r cynnydd yn y llwyth gwaith, yn sicr yn cael effaith ar recriwtio staff i'r proffesiwn. Nodwyd hefyd ei bod yn mynd yn gynyddol anodd recriwtio penaethiaid a bod nifer o'r penaethiaid presennol yn dysgu 3-4 diwrnod yr wythnos ar ben y cyfrifoldeb o fod yn bennaeth.
- O bosib' bod angen edrych ar greu rhyw fath o ymgyrch i recriwtio athrawon a chymorthyddion i Wynedd, a'r bobl orau i werthu'r proffesiwn yw'r athrawon eu hunain a'r prifathrawon. Er bod yna heriau ymddygiadol, mae yna lawer mwy o brofiadau positif ar lawr dosbarth nag sydd yna o rai negyddol, ac mae angen hyrwyddo hynny.

Nodwyd nad oedd y problemau recriwtio yn unigryw i Wynedd ac y dylid pwyso ar Lywodraeth Cymru am fwy o arian ar gyfer tâl athrawon, neu fel arall, byddwn, o bosib', yn edrych ar gau ysgolion gwledig oherwydd prinder athrawon. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y sefyllfa gyllidol yn ein hysgolion yn anodd gyda 38 o ysgolion yn mynd trwy sefyllfa o ormodedd, a hynny gyda toriad o 3% dros dair 3 blynedd.
- Bod yna ostyngiad mewn niferoedd plant ar draws y sir sy'n cyfrannu at y diffyg ymhellach ac yn gwneud sefyllfa penaethiaid yn anodd gan y bydd rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf o ran strwythur staffio a sut i symud ymlaen i'r dyfodol.
- Mai hwn oedd y cyfnod mwyaf heriol a welwyd yn y byd addysg ac roedd yn ymddangos bod nifer o bobl abl iawn i gamu i mewn i swydd pennaeth wedi penderfynu aros i'r don basio cyn cymryd y cam hwnnw.

Nodwyd mai'r tâl a'r amodau gwaith sy'n ei gwneud yn anodd recriwtio athrawon a bod y gwir oriau mae athrawon yn gweithio yn gwneud y tâl fesul awr yn gymharol fach.

Holwyd sut y bwriedid ymdopi â'r diffyg penaethiaid dros y blynyddoedd nesaf. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r Strategaeth Addysg newydd yn gyfle i wyntyllu hynny hefo'r ysgolion.
- Bod yr atebion posib' yn cynnwys gweithio hefo penaethiaid mewn ysgolion eraill ac annog pobl sy'n dal yn ôl rhag ymgeisio am swydd pennaeth i gamu ymlaen i lenwi'r bwlch, hyd yn oed petai hynny ar sail dros dro yn unig, gan dderbyn y byddai

cynnal y math hwnnw o weinyddiaeth, sydd ddim yn wydn, yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr Adran Addysg a GwE.

Cyfeiriwyd at yr anawsterau recriwtio technegwyr mewn ysgolion a holwyd pa ffyrdd gwahanol oedd yna o gefnogi ysgolion o ran y ddarpariaeth TG. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna broblem recriwtio technegwyr gwyddoniaeth, yn ogystal â thechnegwyr TG.
- Yn ogystal â rhannu technegwyr gydag ysgolion eraill, bod technegwyr canolog y Cyngor wedi bod yn daparu gwasanaeth ymestyn allan ar gyfer cefnogi gwaith technegol mewn ysgolion sy'n methu penodi technegydd, ond bod angen technegydd yn y fan a'r lle ar gyfer y mwyafrif o dasgau.
- Bod yr Adran wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i weld oes yna fyfyrwyr fyddai â diddordeb mewn gwneud y math yma o waith, ond yn anffodus, nid oedd y cyflogau yn denu'r math yma o unigolion.
- Bod yr Adran hefyd wedi bod yn gweithio gyda Coleg Meirion Dwyfor ac ysgolion e.e. i weld fyddai gan rywun ddiddordeb mewn cymryd blwyddyn allan ar ôl Lefel A i wneud y math yma o waith, ac er y llwyddwyd i gael ambell enw, nid oedd yr unigolion hynny wedi dilyn ymlaen gyda'r cynnig.
- Bod y Strategaeth Ddigidol yn amcanu i gynyddu sgiliau dysgwyr fel eu bod yn gadael ysgol gyda'r sgiliau digidol fydd yn eu galluogi i gyflawni'r swyddi hyn maes o law.
- Bod angen ceisio lleihau'r galw am dechnegwyr yn y lle cyntaf drwy uwchraddio'r dyfeisiadau sydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd, er, wrth gwrs, bod raid cofio bod y cynnydd yn nifer y dyfeisiadau ar draws y sir yn mynd i arwain at fwy o alw am gefnogaeth dechnegol.

Awgrymwyd mai canlyniad y toriadau yng nghyllidebau ysgolion fydd dosbarthiadau mwy a holwyd i ba raddau y rhagwelir y bydd angen cyfyngu ar y cwricwlwm er mwyn gwneud iawn i'r pynciau craidd drwy neilltuo mwy o oriau ar eu cyfer gan y bydd dosbarthiadau yn fwy, ac i ba raddau mae hynny wedyn yn milwrio yn erbyn y math o ddatblygiadau sy'n rhan o'r cwricwlwm newydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Wrth lunio amserlenni gwersi, bod yr ysgolion bob amser yn cychwyn gyda'r pynciau craidd, ac yn adeiladu ar hynny.
- Wrth i'r cwricwlwm newydd ddod i mewn, rhagwelid y gallai fod yn fwy anodd i ysgolion llai gael y balans ar draws y 5 maes dysgu a phrofiad oherwydd yr angen am yr holl arbenigedd a'r amrywiaeth staffio, ond o ran maint dosbarthiadau, dylai ysgolion gael dosbarthiadau hyfyw sy'n gallu dysgu.
- Y dylai'r gyfundrefn cynhwysiad a'r holl gefnogaeth sydd ar gael sicrhau nad yw ysgol byth yn cyrraedd y pwynt o orfod neilltuo mwy o oriau ar gyfer y pynciau craidd.
- Na ragwelid cyfyngu ar y cwricwlwm newydd, ond yn sicr byddai'r ysgolion yn wynebu heriau wrth symud ymlaen.

Sylwyd nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at y drefn o ddychwelyd plant sy'n mynychu'r canolfannau iaith i'r fam-ysgol ar y 5ed diwrnod o'r wythnos. Mewn ymateb, nodwyd, gan fod y gyfundrefn drochi yng Ngwynedd ar ei newydd wedd bellach wedi cwblhau cylch blwyddyn gyfan, bod y Gwasanaeth yn symud ymlaen i ymgynghori ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ynglŷn â gwerthusiad o'r gyfundrefn honno. Unwaith y byddai'r sylwadau wedi'u coladu a'r broses wedi'i chwblhau, byddai'r mater yn dod gerbron y pwyllgor hwn i'w graffu.

Nodwyd bod yna gryn bryder mewn un ardal o'r sir yn benodol bod dychwelyd plant o'r canolfannau iaith i'r fam-ysgol 1 diwrnod yr wythnos yn cael effaith ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio ar fuarth yr ysgol. Nodwyd bod aelod wedi bwriadu cyflwyno cwestiwn ynglŷn â

hyn i'r Cyngor llawn diwethaf, ond iddo gael ei wrthod. Mewn ymateb, nodwyd petai'r gwerthusiad o'r gyfundrefn yn profi bod angen newid y drefn, byddai'r Gwasanaeth yn edrych ar hynny o ddifri'.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd y byddai'r adolygiad o'r gyfundrefn drochi yn adolygiad mewnol, ond yn cynnwys llais pawb.

Holwyd faint o blant Saesneg fel Iaith Ychwanegol oedd yna yng Ngwynedd, yn benodol felly yn y sector cynradd. Mewn ymateb, nodwyd y gellid darparu'r union ffigwr ar gyfer yr aelod.

Holwyd beth oedd sefyllfa'r Polisi Iaith o safbwynt plant sydd ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg, a holwyd pam nad oeddent, yn y sector cynradd o leiaf, yn mynd ati'n syth i ddysgu Cymraeg. Holwyd hefyd pa wersi y gellid eu dysgu o edrych ar y gyfundrefn dysgu Saesneg, sydd hefyd yn faes arbenigol ieithyddol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod plant sydd ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg yn cael eu derbyn yn syth i'r canolfannau iaith, a'u bod hefyd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oedd yna bolisi bod rhaid i'r plant ddysgu Saesneg yn gyntaf.
- Bod 4% o'r plant yn y canolfannau iaith y tymor diwethaf yn blant oedd wedi cyrraedd heb unrhyw Gymraeg na Saesneg.
- Bod y Gwasanaeth a'r Tîm Saesneg Iaith Ychwanegol yn rhannu gwerthoedd ac egwyddorion trochi, a hefyd yn cynnal hyfforddiant gydag ysgolion sydd wedi derbyn mewnbwn sylweddol o blant sydd ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg.
- Y ceisid sicrhau nad yw'r plant yn cael mewnbwn gan y ddau dîm ar yr un pryd a'u bod yn dod i'r canolfannau iaith yn gyntaf ac wedyn yn derbyn cefnogaeth gan y Tîm Saesneg Iaith Ychwanegol.

Nodwyd:-

- Bod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i leoli mewn 3 adran wahanol o'r Cyngor dros y 2 flynedd ddiwethaf, a hefyd wedi bod trwy gyfnod o ail-strwythuro eithaf sylweddol.
- Bod yr adroddiad yn sôn am edrych ar gyfleoedd cyllidebol newydd, a holwyd beth a olygid gan hynny.
- Bod holiadur a rannwyd gyda phobl ifanc cyn y Nadolig yn gymhleth dros ben a bod hynny'n codi pryder ynglŷn â dibynadwyedd yr ymgynghori.
- A fyddai'r adolygiad o'r Gwasanaeth yn golygu cynnal ymgynghoriad llawn, neu ddarparu holiadur yn unig?

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y croesawid y Gwasanaeth Ieuenctid i'r Adran Addysg a chredid mai dyma ei gartref naturiol o fewn y Cyngor o ystyried y gwaith arbennig mae'r Gwasanaeth yn ei wneud gyda'r ysgolion.
- Bod yna waith da yn digwydd hefyd gyda'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgolion, ac sydd, o bosib', angen cefnogaeth i symud ymlaen o ran eu bywyd gwaith a hyfforddiant, ayb, ac roedd hynny eto'n ffitio'n dda o fewn y gyfundrefn addysg.
- Bod y gwaith ieuenctid cymunedol yn cael ei ariannu gan wahanol ffynonellau ariannol a grantiau, ayb, a dymunid edrych ar gysondeb y ddarpariaeth ar draws yr ardaloedd.
- Bod y cymorth ieuenctid o ran ysgolion yn gyson ac ar gael yn yr ysgolion i gyd a bod yna ganmol i'r gwaith sy'n digwydd yn amlasiantaethol.
- Bod y gwaith hynod o dda o ran y dysgwyr ôl-16 yn digwydd yn unol â'r fframwaith ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n gadael addysg a hyfforddiant.
- O ran y sylw ynglŷn â chymhlethdod yr holiaduron, byddai'r Gwasanaeth yn edrych ar hynny ac yn sicrhau bod y cynnwys yn glir a dealladwy i bawb.

- O ran y goblygiadau cyllidol, er bod yna dorri ar y Gwasanaeth Ieuenctid o ran y toriadau sydd wedi'u hamlygu, bod y Gwasanaeth yn ffodus i ryw raddau bod swyddi gweigion, ac ati, yn golygu bod modd torri heb golli unigolion allweddol o'r gwasanaeth.

Nodwyd:-

- Na chytunid mai'r Adran Addysg yw'r lle perffaith ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac y dylai fod yn wasanaeth ar wahân sy'n pontio sawl adran o ystyried bod Cynllun y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu cyfleoedd hamdden a chymdeithasu y tu allan i sefydliad addysg ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Y gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n ei chael yn anodd bod yn rhan o addysg arferol ers cyfnod y pandemig, a bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn hynod bwysig, fel gwasanaeth ataliol bron, fel nad yw pobl ifanc yn mynd i sefyllfa anodd.
- Bod y gwaith mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn wneud ar hyn o bryd gydag adnoddau prin yn anhygoel.
- Bod y ddarpariaeth wych a gynigir gan yr elusen Porthi Dre yng Nghaernarfon yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i les pobl ifanc.
- Bod yr adroddiad yn sôn bod 1,300 o achrediadau wedi'u cwblhau gan bobl ifanc, ac er bod hyn yn lwyddiant i'r bobl ifanc, dylid cwestiynu beth mewn difri' yw gwerth yr achrediadau hyn ar y diwedd. Holwyd a oedd y Gwasanaeth yn cysylltu â'r bobl ifanc hynny sydd wedi cwblhau achrediadau yn y gorffennol i ofyn a fu'r achrediadau hynny o gymorth iddyn nhw gael gwaith neu hyfforddiant. Nodwyd hefyd mai'r flaenoriaeth i bobl ifanc yw cael cyfle i hamddena a chymdeithasu ac y gallai'r angen i gwblhau achrediadau fod yn faen tramgwydd i bobl ifanc ymgysylltu gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid.
- Bod yr adroddiad yn nodi bod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi ymgysylltu gyda 65% o bobl ifanc o Haen 1 a 2 (Nifer o bobl ifanc mwyaf bregus Gwynedd), sy'n golygu na lwyddwyd i ymgysylltu gyda'r 35% arall. Tra'n cydnabod nad yw'n bosib' cyrraedd pawb, a bod yna gynnydd aruthrol wedi bod yn y galw, holwyd pa gynllunio ymlaen llaw sy'n digwydd i sicrhau gallu cyrraedd y galw yn well.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr ateb o ran sut i gael mwy i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid i'w weld yn y ffaith bod y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r plant o fewn yr ysgolion, a hynny mewn ffordd wahanol i'r athrawon a'r cymorthyddion.
- Y cytunid y gallai'r angen i gwblhau achrediadau fod yn faen tramgwydd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid, a bod angen edrych ar hynny. Er hynny, roedd rhai pobl ifanc, megis unigolion sydd ddim yn ymgysylltu cystal yn yr ysgol, yn cael gwir werth o'r achrediadau gan eu bod yn caniatáu iddynt gael gwell mynediad i addysg bellach, ayb, na fyddent yn ei gael drwy'r cwricwlwm ysgol yn unig.
- O ran hyrwyddo mwy o bobl ifanc i fod yn rhan o'r Gwasanaeth Ieuenctid, bod yna strategaeth ar hyrwyddo'r Gwasanaeth ar waith ac o bosib' y byddai ymweld â Phorthi'r Dre yn un ffordd o gael pobl ifanc i ymgysylltu'n well gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Nododd y cynrychiolydd undebau athrawon fod ganddi gwestiynau i'r Pennaeth Addysg a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, ond yn anffodus, bod raid iddi adael y cyfarfod. Gofynnodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE iddi ebostio'r cwestiynau ato fel y gallai ymateb yn uniongyrchol.

Sylwyd bod yr adroddiad yn nodi bod gan 99.16% o staff yr ysgolion DBS cyfredol, sy'n ganran uchel iawn, ond y dylai fod yn 100%, a holwyd ai'r ffaith bod ceisiadau yn cael eu prosesu, ayb, oedd y rheswm am hynny. Mewn ymateb, nodwyd:

- Y dylai'r ganran fod yn 100% yn amlwg a bod yr Adran yn gweithio tuag at hynny. Er hynny, roedd cyrraedd 100% bron yn amhosib', yn enwedig os oes unigolion wedi'u hatal o'r gwaith ac felly'n methu cael prosesu eu DBS, ond yn dal ar y gyflogres tra mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo. Hefyd, roedd yna athrawon llanw, sydd ddim bellach yn dysgu, ond yn parhau ar restr yr Awdurdod, ac un neu ddau o unigolion sy'n disgwyl eu canlyniadau, ayb, o ran y DBS.
- Bod gan yr Awdurdod restr yn nodi ym mha ysgolion ac ym mha wasanaeth mae'r unigolion sydd heb DBS a bod yna Swyddog Diogelu yn cysylltu â phob un ohonynt yn fisol er mwyn sicrhau bod y nifer mor isel ag y gall fod.
- Bod y niferoedd staff sydd heb DBS cyfredol wedi gostwng o 96 i 26 mewn 3 mis.

Holwyd a ellir bod yn glir a yw nifer y plant sy'n cymryd cinio ysgol ar gynnydd ai peidio, ac a yw'r ymgyrchoedd i gael plant i fwyta'n iach yn effeithio ar hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cynnig o ginio am ddim i ddysgwyr cynradd o'r Flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yn weithredol yng Ngwynedd ers dechrau mis Medi diwethaf, ac er bod y ddarpariaeth ar gael ar gyfer y plant, bod gwaith i'w wneud eto o ran cwblhau gosod offer mewn ceginau, ac ati.
- Y gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n cymryd cinio ysgol ers mis Medi, er, o bosib', nad oedd y cynnydd hwnnw gymaint â'r disgwyl mewn rhai ysgolion, ac roedd lle i fod yn hyrwyddo dipyn mwy ar y cynnig.
- O bosib' bod rhai yn dal i feddwl nad yw'r cynnig yn agored i bawb a bod yr ymdeimlad o stigma ynghlwm â chinio am ddim yn parhau.
- Bod bwriad i gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor hwn ym mis Mawrth ar y Prosiect Cinio am Ddim, ac erbyn hynny, byddai'r Adran wedi casglu barn penaethiaid ynglŷn â pha gynnydd maen nhw'n teimlo sydd wedi bod yn eu hysgolion, ydi hynny wedi gwella ar yr elfen bwyta'n iach gan blant ac ydi o wedi effeithio'n gadarnhaol ai peidio ar ymddygiadau neu addysg y plant yn ystod y cyfnodau ar ôl amser cinio.
- Y byddai'r Adran hefyd yn gweithio gyda dwy ysgol ar gynllun peilot i geisio gweld i ba raddau y gellir gweithio'n fwy dwys gyda rhai teuluoedd i geisio'u hannog i fanteisio ar y cynnig.

Nodwyd bod y diwrnod ysgol yn gallu bod yn ddrud i rieni, a holwyd a oedd gwaith ar droed i asesu a oes yna blant yn methu ysgol oherwydd bod eu rhieni'n methu fforddio popeth sydd ei angen. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yna waith yn digwydd ar hyn o bryd i edrych yn benodol ar gost gyrru plentyn i'r ysgol yng Ngwynedd.
- Bod ymateb rhieni hyd yma i'r holiaduron a anfonwyd at randdeiliaid wedi bod yn dda, yn egluro'r rhwystredigaeth, nid yn unig o ran y ffaith bod yna gostau, ond bod y costau hynny'n tueddu i ddigwydd ar yr un amser. Byddai'r Adran yn edrych hefyd oes yna sylwadau ynglŷn â phresenoldeb yn benodol yn yr ymatebion ddaw yn ôl.

Holwyd beth oedd y rheswm dros y bwlch rhwng yr hyn sydd yn y gyllideb a gwir gost cludiant ysgol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gyllideb cludiant yng Ngwynedd yn gor-wario ers blynyddoedd lawer a bod rhaid edrych ar hynny dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.
- Bod y sefyllfa'n gymhleth a'r gyllideb cludiant yn anodd i'w rheoli am nifer o resymau, gan gynnwys plant yn symud ysgolion, plant yn symud i mewn ac allan o ofal, rhai plant gydag anghenion arbennig sy'n cael eu cwrdd y tu hwnt i'r ardal leol, yr angen i gludo plant i ystod o sefydliadau gwahanol, gan gynnwys canolfannau ABC, canolfannau iaith ac ysgolion arbennig, y ffaith bod y contractwyr yn gyfuniad

o gwmnïau bysus a thacsis a bod ambell gontractwr yn rhoi'r gorau i'r contract ac yn ail-dendro am y contract am bris uwch.

- Bod bwriad i benodi Rheolwr Cludiant ar gyfer yr Adran Addysg yn y dyddiau nesaf fel bod un person o fewn yr Adran yn cymryd cyfrifoldeb dros gludiant.
- Bod rhaid edrych ar y galw a'r ddarpariaeth er mwyn gweld oes yna ffordd fwy cost-effeithiol o gludo plentyn o A i B, ond roedd honno'n dasg ynddi'i hun o ystyried nad oes, efallai, ond un cwmni yn y farchnad am y contract mewn rhai ardaloedd gwledig.

Holwyd a oedd gan yr Awdurdod ddarpariaeth i sicrhau bod cynlluniau cydraddoldeb yn cael eu rhoi mewn lle yn yr ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd, yn sgil diweddaru'r modelau o bolisïau a chynlluniau yn wyneb y canllawiau newydd, y byddai'r Adran yn rhoi'r arfau gorau i'r ysgolion ddatblygu eu cynlluniau cydraddoldeb unigol eu hunain.

Holwyd a oedd yna broses mewn lle i sicrhau bod plant mewn gofal yn mynychu'r ysgol gymaint â phosib' ac a oedd gan yr Adran y capasiti i gwrdd â phob gofyn statudol o ran plant mewn gofal. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gennym y capasiti, ond bod yna broblem o ran mynediad at ddata fel bod modd targedu plant mewn gofal yn amserol gan fod plant yn mynd i mewn ac allan o ofal cyn bod modd darparu unrhyw beth ar eu cyfer o ran yr ysgolion.
- Bod yr Adran yn edrych ar hyn yn benodol a bod y data yn ymestyn ymhellach na phresenoldeb yn unig, ac yn ymwneud â chyrhaeddiad plant mewn gofal yn ogystal.
- Ei bod yn anodd iawn cael gafael ar ddata sy'n dangos lle dylai plentyn mewn gofal fod o ran cyrhaeddiad addysgol a dod i farn ynglŷn ag effeithiolrwydd y ddarpariaeth.
- Bod y Tîm Data yn edrych ar bresenoldeb plant mewn gofal o gymharu â phlant eraill ac yn darganfod ffyrdd dychmygol iawn o ddatrys llawer o'r rhwystrau o ran casglu gwybodaeth o fewn yr ysgolion.

## 7B ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2022-23

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23.

Rhoddodd yr Uwch Arweinydd Rhanbarthol – Ysgolion Cynradd ac Arbennig drosolwg o gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd y dymunid cydnabod a diolch i'r cymorthyddion dosbarth am roi eu hamser i fynd ar hyfforddiant ac am ymgymryd â'r rôl o ddifri' yn eu gwaith bob dydd. Mewn ymateb, nodwyd y cytunid â'r sylw a bod cymorthyddion effeithiol yn ychwanegu gwerth sylweddol i ysgol.

Nodwyd ei bod yn dorcalonnus bod cymorthyddion profiadol gyda blynyddoedd lawer o brofiad a gwybodaeth yn y maes yn gadael i fynd i swyddi eraill sy'n talu gwell cyflog.

Nodwyd bod yr adroddiad yn llawn iaith ansoddeiriol canmoliaethus a bod paragraff cyntaf y Crynodeb Gweithredol ar dudalen gyntaf yr adroddiad yn cael ei ail adrodd air am air dan y pennawd Rhagarweiniad a Chyd-destun. Mewn ymateb, nodwyd bod y paragraff cychwynnol sy'n ymddangos yn y Crynodeb Gweithredol ac yn yr adroddiad ei hun yn ddyfyniad o ganfyddiadau Estyn ar y gwasanaeth, nid yn unig yn lleol yng Ngwynedd, ond yn gyson ar draws 6 awdurdod y Gogledd.

Nodwyd na anghytunid â'r prif flaenoriaethau gwella, ond gofynnwyd am sicrwydd y bydd yr un rhestr o flaenoriaethau yn ymddangos yn yr adroddiad blynyddol nesaf, gydag unrhyw gynnydd yn erbyn y materion hynny wedi'i adnabod. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran y drefn adrodd, bod yr elfennau sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd angen eu datblygu yn mynd i mewn i'r cynlluniau busnes.
- Bod y blaenoriaethau gwella hyn yn gynwysedig yn y cynlluniau busnes sy'n weithredol ar y funud, a phan fyddai cyfle i adrodd eto ymhen blwyddyn, byddai'r rhain yn sail i ddangos cynnydd yn erbyn y materion sydd wedi'u hadnabod.

Nodwyd nad oedd yna unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at brofion PISA a holwyd sut y bwriadai GwE ymateb i ganlyniadau'r profion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Oherwydd natur a chefndir Cymru, ei bod yn ymddangos bod Cymru wedi'i heffeithio'n waeth yn dod allan o'r cyfnod Cofid na nifer o wledydd tebyg i ni.
- Bod profion PISA yn un o ddangosyddion cenedlaethol y Llywodraeth fel rhywbeth sy'n dangos pa mor effeithiol ydi'r gyfundrefn addysg, ond bod perygl mewn gwneud gosodiadau ar brofion rhyngwladol.
- Os yw profion PISA yn mynd i fod yn ddangosydd cenedlaethol sy'n cael ei gyfri' a'i fesur yn ei erbyn, bod rhaid cael strategaeth genedlaethol glir mewn lle sy'n cael ei chefnogi o lefel llywodraeth i wasanaethau fel GwE, ac hefyd i lefel ysgol er mwyn gwneud yn siŵr bod ein disgyblion mwyaf abl yn cael y cyfleoedd i arddangos eu gallu.

Holwyd pa mor bwysig yw llywodraethwyr da i ysgol symud yn ei blaen a beth yw disgwyliadau GwE o lywodraethwyr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai rôl llywodraethwr yw bod yn gyfaill beirniadol sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion.
- Bod yna wahoddiad bob amser i lywodraethwyr ymuno ym mheth o'r gwaith mae GwE yn ei wneud yn yr ysgolion, gyda cydweithrediad y pennaeth, e.e sut rydym yn dod i farn ar wahanol bethau, pa dystiolaeth rydym ni'n edrych arni, pa mor dda mae ysgol yn adnabod ei hun (sydd hefyd yn cynnwys llywodraethwyr), beth ydi'r blaenoriaethau a beth a wneir yn eu cylch.
- Y drefn naturiol wedyn fyddai craffu'r materion hyn yn y corff llywodraethol er mwyn adnabod y blaenoriaethau a sut i wella.
- Petai yna ddymuniad i gynnal gweithdai penodol i lywodraethwyr yn y rôl yna'n benodol, diau y gellid trefnu hynny mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Addysg. Byddai hefyd angen cyfle i dywys cynghorwyr drwy'r wybodaeth yn y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd o ran beth yw'r cyfrifoldebau a sut i gyflawni'r rôl mewn ffordd sy'n newid ychydig bach wrth i ni fynd yn ei blaenau.

Awgrymwyd y byddai'r adroddiad blynyddol yn llawer cliriach petai'n llawer mwy cryno a gofynnwyd i GwE gymryd hyn i ystyriaeth ar gyfer y dyfodol.

Holwyd a fyddai GwE yn rhan o'r gwaith o fonitro'r Siarter Iaith newydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd hynny'n hysbys eto gan fod arian y Gymraeg, a arferai ddod i GwE, yn gorwedd gyda'r awdurdodau yn ei gyfanrwydd ers blwyddyn bellach.
- O ran fframwaith y Siarter Iaith newydd, y byddai'r gwaith monitro yn cael ei wneud gan Gydlynydd y Siarter Iaith Gwynedd a Môn a Thîm y Gymraeg yn yr awdurdod. Fodd bynnag, roedd hynny'n mynd i fod yn dipyn o her o ystyried nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Gwynedd gyfan a'r ffaith bod y Cydlynydd yn rhannu ei hamser rhwng Gwynedd a Môn.
- Bod yr Adran yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar y goblygiadau ariannol o ran y Gymraeg yn gyfangwbl o ran y Bil Addysg Gymraeg

fel bod modd cyfrifo a chynnig rhagolygon gwariant o beth fydd effaith cyflwyno'r Bil yn y gobaith y bydd y Llywodraeth yn clustnodi swm o arian i gyd-fynd â hynny.
- Petai'r Awdurod yn gweld bod yna rôl comisiwn i GwE o ran gwneud y gwaith monitro ochr yn ochr â'r Awdurdod, neu ar ran yr Awdurod, byddai modd cael trafodaeth ynglŷn â hynny.

Mynegwyd y farn bod yr adroddiad yn un tra arwynebol, yn enwedig yr adrannau gwerthuso pwysig sy'n dod o dan y pennawd '*Mynd i'r afael â gwelliannau pellach'*, a bod rhai o'r gwelliannau, megis '*parhau i adnabod sut mae cynnydd yn edrych er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn fwriadus dros amser*' yn amwys iawn. Holwyd hefyd i ba raddau mae GwE yn monitro data llithriad a chynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg, ac yn goruchwylio hynny. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd GwE yn monitro data a chynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd.
- O ran sylw blaenorol yn ystod y cyfarfod ynglŷn â gweld yr argymhellion yn yr adroddiad blynyddol nesaf, ei bod yn bosib', unwaith eto, y bydd hyd a lled yr hyn y gall GwE ei gynnig yn dipyn llai wrth i ni symud yn ein blaenau, ac roedd honno'n drafodaeth i'w chael dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.
- Bod sylw wedi'i wneud fwy nag unwaith yn ystod y cyfarfod ynglŷn ag amwysedd iaith yr adroddiad, ond o ran hyd adroddiadau, mater bach fyddai darparu adroddiad llawer mwy cryno. Fodd bynnag, byddai hynny'n codi cwestiwn o ran y gwerth mae'r Cyngor yn gael o ddogfen mor fyr, gan gofio bod yna gynulleidfa allanol hefyd, sef yr arolygwyr.
- Bod rhaid cael y cydbwysedd yn iawn i fedru dangos beth yw hyd a lled y rhychwant o wasanaeth mae GwE yn eu rhoi i'r ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 8. PROSIECT ADDYSG ÔL-16 YN ARFON

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar daith y Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac yn gwahodd sylwadau'r craffwyr.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd siomedigaeth â'r adroddiad ar y sail:-
- Nad oedd sôn yma am gysoni addysg ôl-16 ar draws Gwynedd.
- Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at yr ochr academaidd, ni cheid unrhyw gyfeiriad at yr ochr galwedigaethol a chredid bod gwahanu'r ddwy garfan o blant yn 16 oed yn gamgymeriad anferth.
- Mai mantais coleg trydyddol yw ei fod yn cadw'r dysgwyr i gyd hefo'i gilydd hyd 18 oed ac roedd yn drist nad oedd plant Arfon yn cael yr un cyfle â phlant Dwyfor a Meirionnydd.

Mewn ymateb, nodwyd bod modd i'r disgyblion yn Arfon astudio pynciau academaidd a phynciau galwedigaethol drwy'r chweched dosbarth yn yr ysgolion ar hyn o bryd.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â Chwmni Iaith Cyf a gomisiynwyd i gyflawni gwaith ymchwil yn y maes ar ran yr Adran Addysg. Mewn ymateb, nodwyd bod Cwmni Iaith Cyf yn gwmni allanol gyda phrofiad dros nifer o ddegawdau o gynllunio ieithyddol, a phrofiad hefyd yn y maes addysg a hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 4.00yp.

<u>Cadeirydd</u>